# Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella 18 Gorffennaf 2023, 09:30 a gynhaliwyd yn 2 Capital Quarter a thros Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant (Canolfan Gydweithredol WHO) |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Angela Cook | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (am ran o’r cyfarfod, gadawodd am 11:00am) |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol (yn arsylwi) |
| Wayne Jepson | (WP) | Arweinydd Rhaglenni / Cynghorydd Gwella |
| Bethan Hopkins | (BH) | Archwilio Cymru (yn arsylwi) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Jennie Leleux | (JL) | Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (Ar gyfer eitem 3) |
| Paula Mitchell | (PM) | Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Clinigol (Ar gyfer eitem 4) |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd yr Undeb Llafur |
| Chris Orr | (CO) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/ Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (Ar gyfer eitem 5.8) |

| | | |
|---|---|---|
| Michelle Peters | (MP) | Rheolwr Iechyd a Diogelwch y Rhwydwaith, Microbioleg (Ar gyfer eitem 5.2) |
| Christopher Thomas | (CT) | Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Kate Eden | (KE) | Cadeirydd y Pwyllgor, Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Francesca Thomas | (FT) | Pennaeth Gweithio i Wella |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd yr Undeb Llafur |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 09:30* | | |

| **QSIC 18/07/2023/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai’r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

| **QSIC 18/07/2023/2** | **Datgan Buddiannau** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **QSIC 18/07/2023/3** | **Eitemau Er Sicrwydd** |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/3.1** | **Atal a Rheoli Heintiau** |

Cyflwynodd AC yr adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2022-23 ar yr Ymgyrch Brechu Staff rhag y Ffliw, gan sicrhau’r Pwyllgor iddi gael ei chyflawni’n llwyddiannus.

Amlygodd JL y niferoedd uwch o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a gafodd eu brechu, sef 51.6%, o gymharu â 46.2% yn 2021/22, a briodolwyd i fanteision ei ddarparu drwy fodel cymysg. Aeth JL ymlaen i nodi’r hyn a ddysgwyd o’r ymgyrch, ac awgrymodd welliannau i ymgyrch 2023/24, megis ymgysylltu ymhellach â’r staff a chanolbwyntio ar wella’r dull o gasglu data ac adrodd yn eu cylch.

Yna, cyflwynodd JL y Cynllun Cyflawni Mewnol ar y Brechiad rhag y Ffliw ar gyfer 2023-24, gan nodi'r uchelgais i sicrhau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y staff sy'n cael y brechiad drwy ddulliau sy'n cynnwys cynllun cyfathrebu cryf, cynyddu'r clinigau / safleoedd a ffurflen hunanadrodd.

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- Nodi'r sefyllfa well mewn perthynas â nifer y staff sydd wedi cael y brechiad;
- Ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i wella'r dull o gasglu a choladu data, gan nodi bod hyn yn cael ei ddatblygu gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a bod y Pwyllgor Ymchwil, Gwybodaeth a Hysbysrwydd yn myfyrio arno.

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- Gael **sicrwydd** ynghylch cyflawniad llwyddiannus yr Ymgyrch Brechu Rhag y Ffliw ar gyfer 2022-23 a
- Cael **sicrwydd** ynghylch y Cynllun Mewnol arfaethedig ar gyfer y Brechiad rhag y Ffliw i'r Staff ar gyfer 2023-24.

| **QSIC 16/05/2023/4** | **Systemau Rheoli Ansawdd**<br>**Y Fframwaith Llywodraethu Clinigol** |
|---|---|

Cyflwynodd AC y Fframwaith Llywodraethu Clinigol drafft, a oedd yn cefnogi cyflwyno Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a chydymffurfiaeth â hi. Nododd MK atebolrwydd gweithredol ar y cyd y Fframwaith rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Chyfarwyddwr Cenedlaethol y Gwasanaeth Diogelu Iechyd a Sgrinio / Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Cefnogodd y dull ar y cyd rhwng y cyfarwyddiaethau i ddatblygu'r Fframwaith, a oedd yn rhan a oedd ei hangen yn fawr o bennu'r sylfeini ansawdd. Cyfeiriodd AC hefyd at y Fframweithiau Goruchwyliaeth Glinigol a Gyrfaoedd priodol, a fyddai'n cefnogi'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol.

Amlinellodd AWJ y cefndir a'r cyd-destun i'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol a'r ffocws hyd yn hyn ar ymgysylltu a'r bwlch dadansoddi. Parhaodd PM â'r cyflwyniad drwy nodi y byddai'r galluogwyr ansawdd a'r fframwaith Llywodraethu Clinigol yn helpu i sicrhau bod y Sefydliad yn cyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r gofynion adrodd cysylltiedig. Bydd y tri fframwaith yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes yn ei gyfarfod nesaf.

Diolchodd y Pwyllgor i WJ a PM am y cyflwyniad cynhwysfawr a thrafododd:
- Y ffaith bod cynllun gweithredu'n allweddol i ymwreiddio a gweithredu'r fframweithiau drwy'r holl sefydliad;
- Yr angen i sicrhau eglurder ynghylch y disgwyliadau gan staff, yn enwedig y rheini sy'n darparu gwasanaethau clinigol;

- Y ffaith bod hwn yn gyfle i bennu safonau a hwyluso newid diwylliannol, ac y dylai strwythurau monitro a dulliau adrodd gynnwys rhannau am lywodraethu clinigol a chydymffurfiaeth â'r safonau ansawdd ac adrodd yn barhaus ar ddata;
- Y ffaith y bydd y tîm cenedlaethol ynghylch y ddyletswydd ansawdd yn symud i Gwelliant Cymru/Gweithrediaeth y GIG o 1 Awst 2023, a roddodd gyfle i fwydo i mewn i'r gwaith ar y gofynion adrodd.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** bod y Fframwaith Llywodraethu Clinigol Drafft yng nghamau olaf ei ddatblygiad ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes ar 19 Gorffennaf 2023;
- Cael **sicrwydd** ynghylch cyfeiriad a datblygiad y Fframwaith Llywodraethu Clinigol i gefnogi cydymffurfiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020);
- **Cytuno** i adolygu gweithrediad y fframwaith yn ystod mis Chwefror 2024.

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/5** | **Eitemau Er Sicrwydd – Parhad** |
| **QSIC 18/07/2023/5.1** | **Diweddariad ar Weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd** |

Cyflwynodd AC yr adroddiad, gan nodi ei ddatblygiad ar y cyd â'r tîm Gwelliant Cymru.

Nododd AC y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gan nodi gwaith ar y cyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ynghylch hyfforddi staff a'r defnydd o'r System Rheoli Cofnodion Staff Electronig, a nododd y byddai'r hyn a ddysgwyd o achos cyntaf dyletswydd gonestrwydd y Sefydliad yn cael ei ystyried yn ystod y sesiwn breifat o'r Pwyllgor.

Aeth JB ymlaen i roi diweddariad yn erbyn y camau i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gan amlygu mwyafrif y camau a gwblhawyd hyd yn hyn, a'r cydweithio i sefydlu dulliau llywodraethu, atebolrwydd, adrodd a gwybodaeth.

Diolchodd DC i AC a JB am eu diweddariadau, gan nodi'r broses ailadroddol er mwyn gweithredu'r dyletswyddau.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y broses sydd ar waith i gyflawni gofynion y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| **QSIC 18/07/2023/5.2** | **Gweithio i Wella Chwarter 1 2023-24 gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol** |
|---|---|

Cyflwynodd AC yr adroddiad Gweithio i Wella ar gyfer chwarter 1, 2023-24, gan amlygu un digwyddiad adroddadwy cenedlaethol, a gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd. Cyfeiriodd AC at y gefnogaeth a ddarparwyd i'r Cyfarwyddiaethau i wella ansawdd yr adrodd a nododd fod yr astudiaeth achos a ganlyn yn amlygu buddiannau cydweithio.

Cyflwynodd PM ac MP astudiaeth achos sy'n ymwneud â gwella'r broses adrodd ar Datix ar draws y gwasanaeth Microbioleg, a oedd yn canolbwyntio ar ddull Cynllunio, Gwneud, Astudio a Gweithredu ar gyfer ôl-adolygu a dadgodio digwyddiadau er mwyn gwella'r data a gesglir. Gwnaethant nodi hefyd y duedd ar i lawr mewn dosbarthiadau eraill sy'n dilyn y cylch Cynllunio, Gwneud, Astudio a Gweithredu a nodwyd y bwriad i barhau i ailddosbarthu ac addasu'r hyfforddiant i wella'r dulliau adrodd ymhellach.

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- Ddiolch i PM ac MP am gyflwyno astudiaeth achos cynhwysfawr, gan nodi y bu cydweithio'n allweddol i'r gwelliant a'i fod yn dda gweld gwelliant ar waith;
- Amlygu pwysigrwydd gwelliant cynyddol parhaus.

**Ystyriodd** y Pwyllgor adroddiad Chwarter 1 Gweithio i Wella 2023-24 a **chafodd sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli Gweithio i Wella yn effeithiol.

| **QSIC 18/07/2023 5.6** | **Diweddariad ar Reoli Dyfeisiau Meddygol** |
|---|---|

Cyflwynodd MK yr adroddiad, gan amlygu'r cynnydd a wnaed o ran sefydlu system sy'n cael ei rheoli a'i llywodraethu ar gyfer dosbarthu dyfeisiau meddygol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr adolygiad o'r Polisi Rheoli Dyfeisiau Meddygol, y newidiadau rheoliadol a chyfreithiol sydd i ddod yn ystod 2024, a'r cynlluniau i benodi rheolwr llywodraethu clinigol.

Cytunodd MK y byddai'n rhoi diweddariad llafar ar y cynnydd a wnaed o ran adolygu'r Polisi Rheoli Dyfeisiau Meddygol, a recriwtio Rheolwr Llywodraethu Clinigol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.
**Camau Gweithredu: MK**

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- Gael **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran y trefnaidau ar gyfer rheoli Dyfeisiau Meddygol a
- **Nodi** fod y blaenoriaethau uniongyrchol a'r cynllun gwaith ar gyfer 2023-24 wedi'u cwblhau.

| **QSIC 18/07/2023 5.7** | **Diweddariad ar Gynllunio ar gyfer y Gaeaf (Diogelu Iechyd)** |
|---|---|

Rhoddodd MK ddiweddariad llafar ar y gwaith cynllunio cenedlaethol a lleol ar gyfer y gaeaf, a oedd yn canolbwyntio ar y gwaith sydd ar y gweill ar Gynllun Cynllunio at Argyfyngau wedi'i ddiwygio, a'r ffocws parhaus ar reoli achosion trosglwyddadwy yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pa mor barod yw'r Sefydliad i ymateb i bandemig newydd.
- Manteision Ymgyrch 'Mwynhewch yr Haf yn Ddiogel' y Sefydliad.
- Cytunodd MK y byddai'n dosbarthu diweddariad ysgrifenedig fel rhan o gyflwyniad briffio ehangach i'r Bwrdd a rhoi adroddiad ysgrifenedig ynghylch cynllunio tymhorol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Camau Gweithredu: MK**

| **QSIC 18/07/2023/5.4** | **Rheoli Risgiau - Adroddiad / Cofrestrau Risgiau Strategol a Chorfforaethol** |
|---|---|

Cyflwynodd SS yr adroddiad risg Strategol a Chorfforaethol, gan amlygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ynghylch y risgiau strategol a ddiweddarwyd a'r awydd am risgiau strategol. Cadarnhaodd SS fod yr holl gamau o risgiau strategol 2022-23 wedi'u trosglwyddo i'r risgiau newydd a nododd fod y Tîm Arweinyddiaeth yn bwriadu diweddaru'r risgiau corfforaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad i bob Risg Strategol, gan nodi:

- RS1- Myfyriodd aelodau'r Pwyllgor ar yr her i fesur effaith y Sefydliad yn y maes hwn gan fod angen dull system gyfan. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch y camau o fewn rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y risg hon, gan nodi natur system gyfan sy'n wynebu tuag allan y risg. Gofynnodd y Pwyllgor i Iain Bell roi ymateb i'r Pwyllgor am hyn.
  **Camau Gweithredu: IB**
- Nododd SA y ffrwd waith gyfatebol yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Sefydliad, fel y gwaith ar anghydraddoldebau iechyd a'r ymateb iddo. Nododd MK ei fod yn gyfforddus bod y rheolau'n nodi'r hyn y gallai'r Sefydliad ei wneud i effeithio ar y system, ond y gellid gwneud y rhain yn fwy eglur.
- RS2- Nododd y Pwyllgor y gwaith a wnaed ar lefel strategol i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac alinio â'r trydydd sector.
- RS3- Cadarnhaodd SA fod gwaith yn cael ei wneud ar y maes hwn a myfyriodd ar sut i gefnogi ac annog unigolion i ymgysylltu â'u huchelgeisiau iechyd eu hunain.
- RS5– Nododd y Pwyllgor y ffocws ar gamau ynghylch genomeg. Aeth y Pwyllgor ymlaen i awgrymu yr hoffai'r Tîm Gweithredol Busnes ystyried cryfhau'r naratif o bosibl ynghylch Newid Hinsawdd o fewn y Gofrestr Risgiau Strategol.

**Camau Gweithredu: PV**

- RS6- Cyfeiriodd MK at yr angen i weithredu mewn meysydd penodol i helpu i sefydlu prosesau gwell mewn rhai meysydd sgrinio, a methrin capasiti'r gweithlu, gan nodi'r trafodaethau dwys yn y cyfarfod diwethaf

o'r Pwyllgor ynghylch y maes hwn, a'r angen posibl i gymryd camau brys ynghylch Gwasanaeth Microbioleg Gogledd Cymru.

- Aeth AC ymlaen i friffio'r Pwyllgor ynghylch y gwaith sy'n ailgychwyn ym maes profiad defnyddwyr y gwasanaeth a nododd y byddai Profiad Defnyddwyr y Gwasanaeth yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfodydd i ddod.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** y Gofrestr Risgiau Strategol ddiwygiedig sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor.
- Cael **sicrwydd** bod y broses lywodraethu wedi'i chwblhau i gau'r Risg Strategol 2022/23 blaenorol sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor hwn.
- Cael **sicrwydd** bod proses ar y gweill i adolygu'r Risgiau Corfforaethol yn erbyn y Gofrestr Risgiau Strategol ddiwygiedig.

| **QSIC 18/07/2023/5.5** | **Adroddiad ar Rybuddion ar gyfer Chwarter 1 2023-24** |
|---|---|

Cyflwynodd AC yr adroddiad ar Rybuddion ar gyfer Chwarter 1 2023-24, gan nodi un rhybudd sy'n berthnasol i'r Sefydliad, a nododd bod cyffredinrwydd y feirws ffliw yn nodi diwedd y tymor ffliw.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gael **sicrwydd** ynghylch rheoli'r hysbysiadau rhybuddion a diogelwch a dderbyniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn effeithiol.

| **QSIC 18/07/2023/5.8** | **Diweddariad Iechyd a Diogelwch - Chwarter 1, 2023-24, Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2022-23** |
|---|---|

Cyflwynodd CO yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1 2023-24, a roddodd gipolwg o'r gweithgareddau iechyd a diogelwch. Nododd nad adroddwyd unrhywbeth o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus, ac amlygodd y gwelliannau o ran cydymffurfiaeth a hyfforddiant ar ystadau.
Byddai CO yn diwygio'r adroddiad i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y Rheolwr Risgiau yn y gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Aeth CO ymlaen i gyflwyno'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2022-23, a roddodd ddadansoddiad o lefel y perfformiad iechyd a diogelwch drwy'r Sefydliad cyfan. Nododd CO yr heriau allweddol ynghylch cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ac ystadau, a drafodwyd gan y Pwyllgor ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac amlygodd y polisïau a'r gweithdrefnau amrywiol a ddiweddarwyd.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gyfeirio at Dabl 3 (Y Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch a Adroddwyd fesul Categori 2022/23) a nododd y byddai'n ddefnyddiol cael syniad o'r broblem a'r effaith, ac a oes dull o nodi materion difrifol a

gwelliannau. Cytunodd CO y byddai'n darparu astudiaeth achos i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr a fyddai'n arddangos manteision system adrodd o ran mynd i'r afael â digwyddiadau ar lefel systemau.

**Camau Gweithredu: CO**

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gael **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella;
- **Cytuno** i ystyried Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar Chwarter 2, 2023-24 mewn e-bost, cyn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023.

**Camau Gweithredu: CO**

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/6** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 18/07/2023/6.1** | **Polisïau a Gweithdrefnau i'w Cymeradwyo** |

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol a:

- **Chymeradwyodd** y Polisi a'r Weithdrefn Gweithio i Wella;
- **Cymeradwyodd** y Polisi Proses Atal ac Atgyfeirio**.**

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/6.2** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod** |

Ystyriodd a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Nododd y Pwyllgor y diweddariadau i'r camau gweithredu sydd ar agor a **chymeradwyodd** y dylid cau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/7** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 18/07/20237.1** | **Adroddiad Cynnydd ar Ailddilysu** |

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar Ailddilysu.

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/7.2** | **Adroddiad Chwarterol Trosolwg a Dysgu ar Ddigwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru** |

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Trosolwg a Dysgu ar Ddigwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/7.3** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2023-24** |

**Nododd** y Pwyllgor y diweddariadau i gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-24.

| | |
|---|---|
| **QSIC 18/07/2023/8** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| **QSIC 18/07/2023/8.1** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |

| |
|---|
| Gofynnwyd i'r aelodau anfon e-bost at LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 12 Hydref 2023.<br><br>Daeth y Cadeirydd a'r cyfarfod i ben |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 12:10* |